**Y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

28 Medi 2007

Annwyl Gydweithiwr,

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i Leihau Gollyngiadau Carbon yng Nghymru.

Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

Craffu ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran cyfrannu at dargedau'r DU ar gyfer lleihau gollyngiadau carbon a'i gynigion ar gyfer cyrraedd y targed o sicrhau gostyngiad o 3% bob blwyddyn mewn gollyngiadau carbon yng Nghymru, fel y nodwyd yn nogfen Cymru'n Un.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd pwnc canlynol:

- Lleihau gollyngiadau carbon o gartrefi
- Lleihau gollyngiadau carbon o drafnidiaeth
- Lleihau gollyngiadau carbon o ddiwydiant a chyrff cyhoeddus
- Lleihau gollyngiadau carbon o gynhyrchu trydan (gan gynnwys ynni adnewyddadwy)
- Rheoli'r defnydd o dir gwledig a lleihau gollyngiadau carbon
- Rôl y system gynllunio o ran lleihau gollyngiadau carbon

Bwriedir cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig ar ddechrau'r ymchwiliad i bob maes pwnc.

Mae'r Pwyllgor yn gwneud cais am dystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer ei ail ymchwiliad pwnc ar drafnidiaeth, yn amlinellu sylwadau eich sefydliad ar y cwestiynau ar yr holiadur atodol.

Anfonwch unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn **dydd Llun 12 Tachwedd** at Virginia Hawkins yn:

Sustainability.comm@Wales.gsi.gov.uk

neu

Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Swyddfeydd y Cynulliad
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Cynhelir ymgynghoriadau pellach ar bob un o'r meysydd pwnc i gyd-fynd â sesiynau tystiolaeth y pwyllgor.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y Pwyllgor ar ein gwefan yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yn gywir

**Mick Bates**
**Cadeirydd, y Pwyllgor Cynaliadwyedd**

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad ar $CO_2$ (Gollyngiadau Trafnidiaeth)**

**Dyma'r ail mewn cyfres o ddogfennau ymgynghori a fydd yn sail i drafodaethau Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddo ymchwilio i faterion yn ymwneud â lleihau gollyngiadau carbon. Roedd yr ymgynghoriad cyntaf yn ymdrin â'r sector preswyl. Cynhelir ymgynghoriadau'n ymdrin â diwydiant a'r sector cyhoeddus, amaethyddiaeth, cynhyrchu ynni a chynllunio maes o law.**

**Mae'n bosibl na fydd pob cwestiwn yn berthnasol i bawb. Atebwch y cwestiynau  sydd fwyaf perthnasol i chi.**

**Cwestiynau cyffredinol**

1. A yw'r targed arfaethedig i sicrhau gostyngiad o 3 y cant bob blwyddyn mewn gollyngiadau carbon erbyn 2011 mewn 'meysydd lle mae pwerau wedi'u datganoli'' yn ddigonol i sicrhau bod Cymru yn cyfrannu'n llawn at y gwaith o gyrraedd targedau'r DU gyfan? Os na, pa dargedau a ddylid eu gosod?
2. A ddylai'r targed i leihau gollyngiadau gael ei seilio ar ynni sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, yr ynni sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru, neu'r ddau (h.y. a ddylai ystyried y carbon deuocsid a gynhyrchir yng Nghymru, neu'r gollyngiadau carbon deuocsid y mae pobl Cymru yn gyfrifol amdanynt, waeth beth yw eu tarddiad?

**Cwestiynau'n ymwneud yn benodol â'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth:**

3. Pe broblemau penodol sy'n wynebu Cymru o ran lleihau'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth, a sut mae modd goresgyn y problemau hyn?
4. Ydi polisïau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi digon o bwyslais ar leihau carbon?
5. I ba raddau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyddo i ddefnyddio'i phwerau i leihau'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth?
6. Pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn targedu adnoddau ariannol mewn ffordd wahanol, a fyddai modd lleihau'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth yn fwy effeithiol nag a wneir ar hyn o bryd? Os felly, ble ddylid gwario'r adnoddau ychwanegol i sicrhau'r effaith mwyaf? (Rhowch fanylion i ategu'ch tystiolaeth).

7. Pa ddulliau eraill gafodd eu defnyddio gan weinyddiaethau eraill (datganoledig, y DU a thramor), i leihau'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth y gallai Cymru eu mabwysiadu o dan y pwerau presennol?
8. Yng nghyd-destun Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pa ddulliau eraill o leihau'r carbon deuocsid a gaiff ei ryddhau gan drafnidiaeth sy'n bosibl *dim ond* pe bai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael pwerau deddfu ychwanegol?
9. Os ydym am osod targedau penodol ar gyfer lleihau gollyngiadau carbon deuocsid yng Nghymru, a ddylid rhannu'r targedau hynny fesul sector? Os felly, pa gyfran o'r holl ostyngiadau ddylai ddeillio o'r sector trafnidiaeth?

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu ymateb i geisiadau am wybodaeth.